# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
# DYDD IAU, 13 HYDREF 2022

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Paul Rowlinson, Jina Gwyrfai, Elfed Wyn ap Elwyn, Angela Russell, Richard Glyn Roberts a Rob Triggs

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes (Cadeirydd), Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock a Rhys Parry

**Swyddogion:**
Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol)
Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Medwyn Hughes, Huw Rowlands a Meryl Roberts

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 8fed Medi 2022 fel rhai cywir.

Mewn ymateb i sylw a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â chynnwys eitem sefydlog ar raglen pob cyfarfod o'r pwyllgor yn rhoi diweddariad ar faterion a godwyd i'r Aelodau ynghyd a gweithredu penderfyniad, nododd y Swyddog Monitro nad oedd dim gofyn cyfreithiol ar gael materion yn codi fel eitem statudol ar y rhaglen. Ategodd y byddai yn trafod gyda'r Pennaeth Cyllid sut i gyfarch dymuniad y pwyllgor o dderbyn diweddariadau i benderfyniadau ac awgrymodd, mai adroddiad byr fyddai'n dderbyniol yn hytrach na chael eitem agored.

**5. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog Monitro) yn nodi, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol, bod darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiad (Cymru) 2021 bellach wedi dod i rym ac er bod rhai elfennau o'r Arweiniad Statudol i'w cyhoeddi ni fydd disgwyl i rain wyro yn arwyddocaol o'r drafftiau a ymgynghorwyd â hwy. Mewn ymateb i ofynion y Ddeddf, cyfeiriwyd at y rhaglen waith sydd eisoes wedi ei gosod o fewn Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg a sicrwydd ar y gweithredu sydd ei angen i weithredu'r darpariaethau.

Cyfeiriwyd at dri maes gwaith, Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, Cynllun Deisebau a Chanllawiau Cyfansoddiad, sydd angen eu symud ymlaen drwy gynnal proses ymgynghori.

Diolchwyd am yr adroddiad

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â hawl gan y Cyngor i ddewis trefn Pleidleisio Fwyafrifol neu Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) ac o ystyried bod gan Wynedd, yn etholiad 2022 y nifer uchaf o Gynghorwyr wedi eu hethol heb unrhyw wrthwynebiad, nododd y Swyddog Monitro mai cyfle oedd yma i Wynedd benderfynu ar sut i ymateb i'r dewis. Ategodd y byddai addasu'r broses gyfredol yn cynnwys adolygiad manwl o'r sefyllfa fyddai'n debygol o gynnwys adolygiad ffiniau, addasu cyfundrefn sylweddol ac ymgynghori fel elfennau statudol. Y dewis sydd gerbron yw ystyried cychwyn y broses neu beidio - bydd rhaid dod i farn ar sut i ymdrin ar opsiwn.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol, o ymateb Awdurdodau eraill i'r mater, mynegodd bod Awdurdodau eraill mewn sefyllfa debyg o ystyried agor trafodaethau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phenodi Aelodau Lleyg, mynegwyd bod y broses bellach yn un barhaus. Derbyniwyd y farn bod dwy sedd wag ar y Pwyllgor ac mewn ymateb, nodwyd er yr ail-hysbysebu, na fu diddordeb. Ategwyd y bydd y swyddi yn parhau yn agored a'r dyddiad cau yn cael ei ymestyn ac anogwyd yr Aelodau, os yn adnabod rhywun sydd â diddordeb, i gyfeirio enw i'r Pennaeth Cyllid.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â nodweddion y Strategaeth Gyfranogi, nodwyd bod dyletswydd statudol bellach i annog cyfranogiad at benderfyniadau sydd wedi eu gwneud a bod hyn yn cael ei weithredu drwy rannu gwybodaeth ar y wefan, megis hysbysiadau penderfyniad a blaen raglenni. Y bwriad yw creu trefn sydd yn cyfarch y dyletswydd heb fod yn gyfundrefn drwm.

Mewn ymateb i sylw am y drefn ymgynghori, a bod hyn i'w groesawu, amlygodd Aelod bod rhaid ceisio osgoi tanseilio trefn ddemocrataidd. Nododd bod Aelodau wedi eu hethol i gynrychioli'r boblogaeth a mynegodd bryder y gall trefniadau oddiweddu'r drefn democratiaeth. Mewn ymateb i'r sylw, nododd y Swyddog Monitro y dylai'r drefn ymgynghori gefnogi'r drefn Democratiaeth - rôl Aelodau yw cymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau ac

felly dylai'r rôl ymgynghorol fod yn gefnogol i'r ystyriaethau hyn.

c) Cynigwyd ac eiliwyd derbyn yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn yr adroddiad**
2. **Derbyn cynnydd ar y rhaglen waith**
3. **Cais am ddiweddariad pellach i Bwyllgor mis Chwefror 2023**

## 6. RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

a) Cyflwynwyd adroddiad ar gais yr Aelod Cabinet Cyllid y Cynghorydd Ioan Thomas. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Awst 2022) ynghyd a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Yn wahanol i'r drefn arferol, gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet 25 Hydref 2022.

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £136.3 miliwn am y 3 blynedd 2022/23 - 2024/25 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £10.1 miliwn ers y gyllideb wreiddiol.

Ategodd yr Uwch Reolwr Cyllid,

- bod y Cyngor gyda chynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £79.8 miliwn eleni, gyda £21.1 miliwn (sef 27%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- bod effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac mai 11% o'r gyllideb yn unig sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst 2022 o gymharu gyda 16% dros yr un cyfnod yn 2021 a 13% yn 2020.
- bod £12.1m o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24 a 2024/25, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys, £5.1 miliwn Cynlluniau Ysgolion - Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill, £3.0 miliwn Cynlluniau Atal Llifogydd a £1.6 miliwn Hwb Iechyd a Gofal Penygroes.

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi llwyddo eu denu ers yr diwethaf a oedd yn cynnwys Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim, Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Defnydd Cymunedol Ysgolion, Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru a Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) tuag at gynlluniau gwledig.

Diolchwyd am yr adroddiad oedd yn gryno a chlir

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnydd mewn benthyciadau, nodwyd mai dyma'r adolygiad cyntaf ers diwedd Mawrth 2022 a bod cynnydd yn bodoli o ganlyniad i lithriadau gyda disgwyl am benderfyniad o ailbroffilio.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r effaith niweidiol ar oedi'r Cynlluniau Atal Llifogydd, nodwyd bod nifer o drafodaethau yn cael eu cynnal rhwng Ymgynghoriaeth Gwynedd a Llywodraeth Cymru ar y mater yma gan fod nifer o gynlluniau mewn lle ac mai ffigwr i warchod y gwaith oedd yma.

c) Cynigwyd ac eiliwyd derbyn yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor**

## 7. CYLLIDEB REFENIW 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid y Cynghorydd Ioan Thomas yn gofyn i'r pwyllgor graffu'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth 25ain Hydref, 2022.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i'r adroddiad drwy nodi:-

- Bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gorwario sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu arbedion.
- Bod yr Adran Economi a Chymuned yn gweld effaith mewn cynnydd costau ynni
- Bod Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn amlygu diffyg gwireddu arbedion ym maes gwastraff
- Bod Adran Tai Ac Eiddo yn gweld effaith ym maes digartrefedd yn sgil addasiad i drefniadau deddfwriaethol covid-19
- Bod bwriad edrych i falansau ysgolion i gyllido y gorwariant a ragwelir ar gostau trydan eleni gan fod yr Ysgolion wedi arbed ynni dros y cyfnod covid

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Cyllid at dalfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau gan amlygu'r meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol. Tynnwyd sylw ar effaith y cynnydd mewn chwyddiant, yn arbennig felly costau trydan sydd uwchlaw'r gyllideb ac i'w weld amlycaf yn yr Adrannau Addysg, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Economi a Chymuned – sef ar ganolfannau hamdden Cwmni Byw'n Iach.

- Yng nghyd-destun covid, er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn sgil Covid yn parhau mewn rhai meysydd.
- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – rhagweld gorwariant o dros £1.9 miliwn eleni, a hynny yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu gwerth £930k o arbedion. Yn amlwg iawn eleni gwelwyd pwysau ar lety cefnogol a phecynnau taliadau uniongyrchol ynghyd a chostau staff a diffyg incwm yn y maes Gofal Cymunedol.
- Adran Addysg - rhagweld gorwariant o £1.3m o ganlyniad i effaith prisiau trydan uwch am gyfnod o chwe mis o Hydref 2022 ymlaen yn yr ysgolion. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyriwyd yn briodol felly i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.
- Byw'n Iach - o ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i'r cwmni dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru (gwerth £1.4 miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21). Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni ond sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhyrchu incwm. O ganlyniad, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd 2022/23, sydd yn £842k eleni.
- Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes bwrdeistrefol yn parhau, gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu. Yr adran hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £533k.
- Tai ac Eiddo – goblygiadau newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd yn golygu pwysau ariannol sylweddol. Er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil covid y Cyngor wedi ei roi i gynorthwyo'r sefyllfa, rhagwelir gorwariant net o

£3.2 miliwn eleni.

- Corfforaethol - rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol a hefyd yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor – gostyngiad yn y niferoedd sydd yn hawlio. Y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog £1.1 miliwn yn fwy ffafriol.

Adroddwyd y bydd yn rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor a balansau'r Ysgolion i gyllido'r bwlch ariannol o £7.1 miliwn a ragwelir am 2022/23. Rhoddwyd eglurhad ar ddwy ffynhonnell arian wrth gefn y Cyngor sef 'Balansau' (arian wrth gefn heb ei glustnodi) a 'Cronfeydd' (arian mewn cronfeydd penodol i wahanol bwrpasau penodol all warchod a chynorthwyo gyda heriau'r dyfodol).

O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, nodwyd bwriad y Prif Weithredwr i alw cyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd y gorwariant. Y bwriad yw sicrhau bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

Diolchwyd am yr adroddiad oedd yn fanwl ei gynnwys ac wedi ei gyflwyno mewn modd deallus.

b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Mai chwyddiant yw'r gelyn mawr - yr argymhellion yn ddoeth i ddelio gyda sefyllfa anodd
- Bod sefyllfa digartrefedd yn gyffredinol ar draws y wlad - galw felly i lobio ar y llywodraeth i ariannu costau addasiadau i'r ddeddfwriaeth
- Mai unwaith yn unig fydd modd defnyddio balansau - angen ystyried hyn wrth osod cyllideb 2022/23
- Bod y sefyllfa economaidd bresennol yn rhoi pwysau ychwaegol ar y Cyngor - bydd rhaid chwilio am ddatrysiadau wrth osod cyllideb
- Y dylid peidio rhoi ysgolion dan bwysau i gyrraedd hicyn mympwyol wrth gynllunio ymlaen
- I dderbyn diweddariad ar enillion llog yn y cyfarfod nesaf
- Y dylid craffu rhesymau gorwariant parhaus yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
- Bod angen cyflwyno adroddiad cynnydd / cynllun gweithredu i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r trafodaethau rhwng Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Prif Weithredwr ynghyd ac ymateb i'r argymhellion a dderbyniwyd gan WRAP Cymru
- Awgrym i lunio amserlen / rhaglen waith o gynllun gwireddu arbedion y Cyngor - byddai hyn yn fodd o gyflwyno'r wybodaeth sydd ei angen i ddeall y sefyllfa yn well

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnyddio premiwm ail gartrefi i fynd i'r afael a chynnydd mewn costau yn y maes digartrefedd, nodwyd y bydd rhaid rhoi ystyriaeth i hyn wrth gyllido ar gyfer 2022/23.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â herio'r Gwasanaeth Byw'n Iach i ystyried arbedion a chynnal trafodaethau i leihau costau, adroddwyd bod gan y cwmni gynllun arbedion ar gyfer 2022/23 a bod cais am fid wedi ei gyflwyno.

Mewn ymateb i'r bwriad o ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion, nodwyd bod balansau'r ysgolion wedi codi yn aruthrol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a hynny oherwydd cynnydd mewn grantiau ac elw o arbedion ynni - priodol felly fyddai defnyddio'r balansau eleni i gynorthwyo gyda

chyllido costau ynni.

**PENDERFYNIAD:**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
2. **Cytuno gyda'r argymhelliad i'r Cabinet ddefnyddio:**
   - **Balansau Ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion**
   - **£4.5 miliwn o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor**
   - **Bod y gweddill i'w gyllido o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.**
3. **Bod adroddiad cynnydd o'r camau gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor wedi trafodaethau rhwng y Prif Weithredwr a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynglŷn â gorwariant yr Adran (yr adroddiad i gynnwys ymateb i argymhellion a gyflwynwyd i'r Adran gan WRAP Cymru).**

**8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 11:50

**CADEIRYDD**